

WILLIAMS, WILLIAM RETLAW JEFFERSON (?1863 - 1944), cyfreithiwr, achydd a hanesydd

Enw: William Retlaw Jefferson Williams

Dyddiad geni: ?1863

Dyddiad marw: 1944

Rhiant: Jane Williams (née Robertson)

Rhiant: John James Williams

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: cyfreithiwr, achydd a hanesydd

Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Cyfraith

Awdur: Evan David Jones

Yr oedd yn un o blant nodedig Aberclydach ym mhlwy Llanfeugan, sir Frycheiniog (gweler **WILLIAMS, Alice Matilda**). Meddyg a chapten yn y First Brecknockshire Rifle Volunteers oedd y tad, John James Williams (bu farw 31 Mawrth 1906). Ei enw ef yng Ngorsedd y Beirdd oedd 'Brychan'. Jane Robertson oedd enw morwynol y fam.

Prif orchest y mab hynaf, Howell Price, oedd cyflawni'r daith ar hyd cyfandir Affrica o'r Penrhyn i Gairo yn 1909-10. Bu ef farw yn 1920. Cofrestrwyd yr ail fab, William Retlaw (sef Walter o chwith) yn gyfreithiwr yn 1884 a bu'n dal swyddfeidd yn Aberhonddu a Thal-y-bont-ar-Wysg. Yr oedd i'r teulu draddodiad cyfreithiol. Priodasai'r tadcu, Howell Williams, â chwaer Walter Powell partner hynaf y ffyrm Powell, Jones a Powell, Aberhonddu. Er i'w enw barhau yn y *Law List* o dan Aberhonddu hyd at, a chynnwys, 1929, a blwyddyn arall o dan Dal-y-bont, nid ymddengys i William Retlaw ymarfer rhyw lawer iawn â'i alwedigaeth broffesiynol.

Yr oedd y duedd at ymchwil hanesyddol, a ddaeth i'r golwg pan oedd yn bur ieuanc, yn nes at ei galon. Ar un adeg bu'n cynnal busnes achyddol a masnach mewn llyfrau ar Gymru yn Nhal-y-bont gyda chysylltiad agos â llyfrwerthwyr o fri megis **Henry Blackwell**, Efrog Newydd. Cyhoeddodd, yn breifat, nifer o gyfrolau ar hanes cynrychiolaeth seneddol gwahanol siroedd a bwrdeisdrefi, gan ddechrau gyda *The Parliamentary History of the Principality of Wales, 1541-1895*, Aberhonddu, 1895. Y mae copi gyda chywiriadau ac ychwanegiadau yn ei law ef ei hun yn L.I.G.C. (llawysgrif 16363) ar gyfer ail-argraffiad nas cyhoeddwyd. Dilynwyd hwn gan *The Parliamentary History of Hereford, 1213-1896*, Aberhonddu, 1896; *The Parliamentary History of Worcester, 1213-1897*, Henffordd, 1897; *The Parliamentary History of Gloucester, 1213-1898*, Henffordd, 1898; a *The Parliamentary History of Oxford, 1213-1899*, Aberhonddu, 1899. Gadawodd nodiadau bratiog ar gyfer hanes seneddol lwerddon. Cyhoeddodd hanes y Sesiwn Fawr a'i swyddogion - *The History of the Great Sessions in Wales, 1542-1830, together with the Lives of the Welsh Judges ...*, Aberhonddu, 1899, sy'n fwy adnabyddus, efallai, wrth y teitl sydd ar y meingefn - *The Welsh Judges*. Cyhoeddodd hefyd *Official Lists of the Duchy and County of Lancaster*, 1901. Y mae'r gweithiau arloesol hyn yn ddefnyddiol iawn er na ellir dibynnu'n llwyr ar eu cywirdeb. I raddau, gall ysgrifen afler yr awdur esbonio rhai o'r gwllau argraffu. Yn **NLW MS 11029C** ceir teipysgrif o restr a wnaeth o swyddogion catrodau Cymreig, 1715-93.

Golygodd a chyhoeddodd gylchgrawn o dan y teitl **Old Wales**, 1905-7, a chyfrannodd nodiadau i *Old Welsh Chips*.

Yr oedd yn briod ond ni bu iddo blant. Bu farw yn ei gartref, Brynoyre, Tal-y-bont, 20 Mawrth 1944, a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Llansanffraid, Brycheiniog.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

Law Lists

Poole, *The Illustrated History and Biography of Brecknockshire*(1886), 113

Brecon & Radnor County Times, 30 Mawrth 1944

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **William Retlaw Williams**

Dolenni Ychwanegol

VIAF: **27426741**

Wikidata: **Q15983891**

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwydwr
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government